**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(HEOL Y DARREN-DDU, PONTYPRIDD)**

**GORCHYMYN (GWAHARDD CERBYDAU MODUR A MARCHOGAETH NEU HEBRWNG CEFFYLAU) 2024**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Yn dilyn cynnydd diweddar yn y defnydd o'r ffordd a'r coetir cyfagos gan gerbydau modur; mae trigolion lleol, defnyddwyr y warchodfa natur a defnyddwyr y gylchdaith yn pryderu ynghylch y defnydd yma o'r llwybr gan feiciau modur oddi ar y ffordd / cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir ('ATVs').

Mae adroddiadau bod rhai beicwyr modur / gyrwyr 'ATVs' hefyd yn gadael llwybr y brifffordd ac yn mynd ar hyd y llwybrau cyhoeddus yn y coetir ac yn y warchodfa natur. Mae pryderon cynyddol o ran diogelwch cerddwyr ar hyd y llwybrau yma, yn enwedig plant a allai ddod ar draws beicwyr modur ar y brifffordd ac oddi ar y ffordd. Mewn sawl man ar hyd llwybr y brifffordd byddai'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, i gerddwyr a cherbydau modur basio ei gilydd yn ddiogel.

Mae pryderon o ran diogelwch cerddwyr, yn enwedig plant a allai ddod ar draws ceffylau ar hyd llwybr y brifffordd. Mewn sawl man ar hyd llwybr y brifffordd byddai'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, i gerddwyr a cheffylau basio ei gilydd yn ddiogel.

Mae pryder hefyd bod sŵn cerbydau modur sy'n defnyddio'r llwybr yn tarfu ar dawelwch a llonyddwch y warchodfa natur gyfagos ac y gallai leihau atyniad y warchodfa yn gynefin i fywyd gwyllt.

Rhaid gwarchod y Warchodfa Natur Leol gyfagos, Craig yr Hesg. Cafodd yr ardal ei chyhoeddi'n Warchodfa ym mis Chwefror 2008, yn unol â phwerau'r Awdurdod Lleol o dan adrannau 19 a 21 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Nodir y canlynol:-

i. Mae'r Warchodfa Natur Leol yn cynnal ardal o goetir lled-naturiol ar lannau dyffrynnoedd llawn rhywogaethau; cynefin gwastraff pyllau glo; ac ardaloedd o laswellt agored a rhedyn.

ii. Mae lefel isel o faetholion ym mhridd y Warchodfa, sy'n annog fflora amrywiol ond yn achosi iddi fod yn agored i niwed yn sgil erydu a defnydd anaddas o'r tir.

iii. Os caiff mynediad i feiciau modur a cherbydau gyriant pedair olwyn ar hyd Heol y Darren-ddu ei hwyluso, mae pryder sylweddol y bydd hyn yn arwain at fynediad anghyfreithlon a defnydd anaddas o'r Warchodfa, gan arwain at ddeilliannau andwyol megis llwybrau a llethrau ansefydlog, erydu pridd, dŵr ffo siltiog, colli llystyfiant, aflonyddu bywyd gwyllt a llygredd sŵn.

iv. Ers cyhoeddi'r ardal yn Warchodfa Natur Leol yn 2008, mae'r safle wedi elwa o ymwybyddiaeth uwch ei fod yn gyfleuster gwerthfawr ar gyfer cerdded a gweithgarwch hamdden effaith isel. Mae yna bryder, felly, y bydd defnydd beiciau modur a cherbydau gyriant pedair olwyn o gwmpas Heol y Darren-ddu yn cael effaith uniongyrchol andwyol ar iechyd a diogelwch y cyhoedd (cerddwyr a phobl sy'n caru natur yn defnyddio'r warchodfa a'r daith gylchol, sydd wedi'u gwahanu gan y lôn) ac efallai byddai'n atal aelodau'r cyhoedd rhag cael mynediad i'r Warchodfa a'i defnyddio.

v. Mae Gwarchodfa Natur Leol Craig yr Hesg wedi'i chynnwys yn ddiweddar ar restr safleoedd Tirwedd Fyw newydd Cyngor RhCT i ategu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yr Awdurdod a'r Cynllun Natur Lleol ar gyfer RhCT. Mae hyn yn ategu'r cyfoeth bioamrywiol sylweddol mae Gwarchodfa Natur Leol Craig yr Hesg yn ei chynnig i'r Fwrdeistref Sirol.

Felly, mae'r posibilrwydd o fynediad i gerbydau modur ar hyd Heol y Darren-ddu yn peri perygl sylweddol i'r Warchodfa Natur Leol ac i fwynhad y cyhoedd o'r ardal.

Yn dilyn y pryderon sydd wedi'u codi gan gynrychiolwyr lleol yn ymwneud â defnydd anaddas o gerbydau modur a marchogaeth/hebrwng ceffylau ar hyd Heol y Darren-ddu, dyma resymau dros gyflwyno'r mesurau:

i. Er mwyn osgoi perygl i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd, neu unrhyw ffordd arall, ac atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi o ganlyniad i gerbydau modur a/neu geffylau.

ii. Er mwyn atal defnydd o'r ffordd gan gerbydau o unrhyw fath a/neu geffylau, neu ei defnydd gan gerbydau a/neu geffylau mewn modd sy'n anaddas o ystyried cymeriad presennol y ffordd neu eiddo cyfagos.

iii. Er mwyn gwarchod cymeriad y ffordd mewn achos lle mae'n arbennig o addas i'w defnyddio gan bobl ar droed.

iv. Er mwyn atal defnydd anaddas o gerbydau a cheffylau, a thrwy hynny ddarparu man diogel i gerddwyr.

v. Er mwyn atal difrod cyflymach i lystyfiant, y fioamrywiaeth a'r brifffordd.

vi. Er mwyn gwarchod cymeriad y warchodfa natur gyfagos.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(DARREN-DDU ROAD, PONTYPRIDD)**

**(PROHIBITION OF MOTOR VEHICLES AND RIDDEN OR ACCOMPANIED HORSES) ORDER 2024**

## STATEMENT OF REASONS

Following a recent increase in use of the road and adjacent woodland by motor vehicles; local residents, users of the nature reserve and users of the circular walk are concerned over this use of the route by off road motorcycles / All-Terrain Vehicles (ATVs).

It is reported that some motorcyclists / ATVs are also leaving the highway route and proceeding along the public footpaths in the woodland and in the nature reserve. There are growing concerns relating to the safety of pedestrians along these routes, especially children who may come into contact with the motorcyclists both on and off of the highway route. In many places along the highway route, it would be very difficult, if not impossible, for pedestrians and motor vehicles to safely pass each other.

There are concerns relating to the safety of pedestrians, especially children who may come into contact with horses along the highway route. In many places along the highway route, it would be very difficult, if not impossible, for pedestrians and horses to safely pass each other.

Concern is also expressed that the noise of motorised vehicles using the route disturbs the peace and tranquillity of the adjacent nature reserve and may reduce the attractiveness of the reserve as a habitat for wildlife.

To preserve the adjacent Local Nature Reserve (LNR), Craig Yr Hesg – declared in February 2008, in pursuance of powers afforded to the Local Authority through sections 19 and 21 of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949. It is noted that: -

vi. The LNR supports an area of species rich, valley-side, semi-natural woodland; colliery spoil habitat; and areas of open grass and bracken.

vii. The LNR is based on low nutrient soils, which encourage a diverse flora, but are vulnerable to erosion and unsympathetic land usage.

viii. If access for motorbikes and 4-wheel drive vehicles along the Darren-Ddu Road is improved, there is significant concern that this will lead to illegal off-roader access and unfavourable use of the LNR, resulting in adverse implications such as path and slope instability, soil erosion, silty water run-off, vegetation loss, wildlife disturbance and noise pollution.

ix. Since the LNR's declaration in 2008, the site has benefited from a higher public profile as a valued amenity for walking and low impact recreational use. There is, therefore, a concern that motorbike and 4-wheel drive use about the Darren-Ddu Road will directly and adversely impact public health and safety of the wider community (i.e. walkers and nature enthusiasts utilising the nature reserve and the circular walk, which are bisected by the lane) and may discourage access to, and use of, the LNR by members of the public.

x. The recent inclusion of the Craig Yr Hesg LNR as one of RCT Council's new Living Landscape Sites – in support of the Authority's Biodiversity Duty and the Local Nature Plan for RCT – further emphasises the significant biodiversity enrichment that the Craig Yr Hesg LNR provides to the County Borough.

The potential for motor vehicle access along Darren-Ddu Road, therefore, presents a significant risk to the Local Nature Reserve and the public's continued enjoyment of the area.

Following the concerns raised by local representatives pertaining to unsuitable use of motor vehicles and ridden / accompanied horses along Darren-Ddu Road, the measures are being proposed for the following reasons:

vii. For avoiding danger to pedestrians / users of the road, or any other road, or preventing the likelihood of any such danger arising as a result of use by motor vehicles and/ or horses.

viii. For preventing the use of the road by vehicular traffic of any kind and/ or horses, or its use by vehicular traffic and/ or horses in a manner, which is unsuitable having regard to the existing character of the road or adjoining property.

ix. For preserving the character of the road in a case where it is especially suitable for use by persons on foot.

x. To prevent unsuitable use of vehicles and horses, thereby providing a safe area for pedestrians.

xi. To prevent accelerated damage to vegetation, surrounding biodiversity, and the highway.

xii. To preserve the character of the adjoining nature reserve